



A fydd angen trallwysiad gwaed ar eich babi?

Fel pob triniaeth feddygol, dim ond os yw'n hanfodol y dylid rhoi trallwysiad gwaed.

Bydd eich meddyg yn ystyried y risg o roi trallwysiad gwaed i'ch babi yn erbyn y risg o beidio. Dylai eich meddyg neu nyrs egluro i chi pam fod angen trallwysiad gwaed ar eich babi, ond os na fyddant yn gwneud hynny, mae croeso i chi ofyn.

Pam y gallai fod angen trallwysiad gwaed ar eich babi?

Mae babanod sydd newydd gael eu geni yn aml yn mynd yn anemig (gyda llai o gelloedd gwaed coch), yn enwedig os ydynt yn cael eu geni'n gynnar. Gall hyn fod oherwydd problemau meddygol, neu oherwydd bod angen nifer o brofion gwaed ar fabanod sy'n sâl er mwyn monitro eu cynnydd, a bod angen rhoi gwaed iddynt yn lle'r gwaed a gymerwyd. Weithiau, bydd angen cymryd gwaed oddi wrth fabanod sydd ag achos difrifol o glefyd melyn neu sy'n anemig, yn ogystal â rhoi trallwysiad iddynt; gelwir hyn yn drallwysiad cyfnewidiol.

Os oes angen llawdriniaeth ar eich babi, efallai y bydd angen trallwysiad gwaed i roi gwaed newydd yn lle'r gwaed a gaiff ei golli yn ystod y llawdriniaeth.

Ydy trallwysiadau'n ddiogel?

Ydynt. Mae'r risg y bydd trallwysiad gwaed yn achosi i'ch babi fynd yn sâl yn fach iawn. Un o'r ffyrdd pwysicaf o sicrhau trallwysiad gwaed diogel yw gwneud yn siŵr bod eich babi yn cael y gwaed cywir.

Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, bydd staff yn cadarnhau enw a

manylyon eich babi yn ofalus, ac yn gwirio'r bag o waed y bydd yn ei gael. Dyma pam ei bod yn bwysig i'ch babi wisgo band adnabod. Os ydych chi gyda'ch babi, dylid gofyn i chi hefyd gadarnhau enw llawn, cyfeiriad a dyddiad geni eich babi. Dylech atgoffa'r nyrs neu'r meddyg i ofyn hyn i chi os na fydd yn gwneud hynny.

Os penderfynwch newid enw eich babi am unrhyw reswm, mae'n bwysig dweud wrth eich meddyg neu'ch nyrs, fel y gellir diweddararu cofnodion eich babi.

O'i gymharu â risgiau cyffredin eraill, mae'r tebygolrwydd o gael haint o drallwysiad gwaed yn fach iawn. Mae rhoddwyr gwaed yn cael eu dewis yn ofalus iawn, a chaiff y gwaed a roddir ei brofi er mwyn sicrhau ei fod yn addas ar gyfer trallwysiad.

Mae'r risg o gael hepatitis o drallwysiad gwaed yn y DU tua un mewn 670,000 ar gyfer hepatitis B, ac un mewn 83 miliwn ar gyfer hepatitis C. Mae'r tebygolrwydd o gael haint HIV (Feirws Imiwnoddiffygiant Dynol) tua un mewn pum miliwn, neu'r haint HTLV (Feirws T-Lymffotropig Dynol) tua un mewn 18 miliwn (ffigurau a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2011).

Er bod y risg o gael clefyd Amrywiolyn Creutzfeldt-Jakob (vCJD) o drallwysiad gwaed fwy na thebyg yn fach drwy gael un trallwysiad, bydd y risg o gael unrhyw haint yn cynyddu gyda thrallwysiadau gwaed ychwanegol. Bob blwyddyn, caiff tua 2.5 miliwn o unedau o waed eu trallwysio yn y Deyrnas Unedig a dim ond llond llaw o achosion a gofnodwyd lle y cafodd clefion haint vCJD o drallwysiad gwaed.

A fydd trallwysiad gwaed yn effeithio ar y trefniadau sgrinio smotyn gwaed?

Mae'n bosibl y bydd trallwysiad gwaed yn effeithio ar y prawf sgrinio smotyn gwaed a gynigir pan fydd eich babi rhwng pump ac wyth diwrnod oed. Os na fydd y sampl smotyn gwaed wedi'i chymryd eto, bydd angen gwneud hynny cyn i'ch babi gael trallwysiad. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd angen cymryd sampl arall 72 awr ar ôl y trallwysiad gwaed. Gellir cael gwybodaeth fanylach am sgrinio smotyn gwaed yma:
www.newbornbloodspotsscreening.wales.nhs.uk

Sut mae gwaed yn cael ei roi?

Rhoddir trallwysiad gwaed drwy diwb bach iawn yn syth i mewn i wythien. Fel arfer, rhoddir y gwaed o fag bach neu gan ddefnyddio chwistrell. Bydd faint o amser y bydd pob trallwysiad yn ei gymryd yn dibynnu ar sawl ffactor; bydd meddyg neu nyrs eich babi yn gallu dweud mwy wrthyhych am hyn. Os bydd angen mwy nag un trallwysiad ar eich babi, fel arfer trefnir i'r gwaed ddod o'r un rhoddwr.

Sut fydd fy mabi yn teimlo yn ystod ei drallwysiad gwaed?

Ni fydd y rhan fwyaf o fabanod yn teimlo'n wahanol i'r arfer yn ystod eu trallwysiad gwaed ond weithiau, gall rhai gael adwaith i drallwysiad. Caiff eich babi ei arsylwi'n ofalus cyn y trallwysiad gwaed, yn ystod y driniaeth ac ar ôl y driniaeth; ond dylech roi gwybod i'r staff os bydd gennych unrhyw bryderon am eich babi yn ystod y trallwysiad neu ar ôl hynny. Mae adweithiau difrifol i waed yn anghyffredin dros ben. Os byddant yn digwydd, mae staff wedi'u hyfforddi i'w hadnabod a'u trin.

A allaf roi fy ngwaed i fy mhlentyn?

Na. Mae hwn yn gwestiwn cyffredin, ond mae rhesymau da pam na chaiff hyn ei wneud. Mae risg uwch o rai mathau o adweithiau difrifol yn dilyn trallwysiad gwaed gan berthynas. Oni chaiff gwaed gan berthynas agos ei

drin yn arbennig gyda phelydrau-X, mae perygl y gall y gwaed a gaiff ei drallwysio dwyllo system imiwnedd y babi a'i fêr esgyrn, gan arwain at fethiant y mêr esgyrn. Mae'n well osgoi'r risg hon.

Beth os oes gennyf bryderon eraill am drallwysiadau gwaed?

Dywedwch wrth feddyg neu nyrs eich babi am unrhyw bryderon sydd gennych, waeth pa mor ddibwys ydynt yn eich barn chi. Mae gan lawer

Noder, fel mesur rhagofalus i leihau'r risg o drosglwyddo vCJD, na all pobl sydd wedi cael trallwysiad gwaed ers 1980 roi gwaed ar hyn o bryd.

o ysbytai Dîm Trallwyso penodol, ac mae'n bosibl y gall aelod o'r tîm ddod i drafod eich pryderon gyda chi.

Sut gallaf ddod yn rhoddwr gwaed?

Yn genedlaethol, rydym yn defnyddio miloedd o unedau o waed y flwyddyn wrth drin plant. Os hoffech helpu eraill drwy roi gwaed, ffoniwch **0800 252266** neu ewch i'n gwefan www.gwaedcymru.org

Ffynonellau ychwanegol o Wybodaeth

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am drallwysiadau gwaed a bod gennych fynediad i'r rhyngwyd, efallai y bydd y gwefannau canlynol yn ddefnyddiol i chi:

Gwasanaeth Gwaed Cymru
www.gwaedcymru.org.uk

NHS Choice
www.nhs.uk/conditions/blood-transfusion

Gwasanaethau Trallwyso'r DU
www.transfusionguidelines.org.uk

NHSBT
www.blood.co.uk

Er mwyn cynllunio ar gyfer y galw am waed yn y dyfodol, mae angen caslu gwybodaeth am ba gleifion sy'n derbyn gwaed. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i ysbyty neu feddyg teulu i roi gwybodaeth feddygol gyfyngedig am sampl o gleifion sydd wedi cael trallwysiadau gwaed. Mae unrhyw wybodaeth sydd yn cael ei hanfon ymlaen i GGC yn cael ei chadw'n ddiogel, ac mae hawliau'r cleifion hyn yn cael eu diogelu o dan y ddeddfwriaeth diogelu data.

I gael copïau ychwanegol o'r daflen hon ynghyd ag unrhyw wybodaeth bellach, ffoniwch Gwasanaeth Gwaed Cymru ar 01443 622126.

Hoffem ddiolch i wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG am gynnwys gwreiddiol y daflen hon.



Gwasanaeth Gwaed Cymru

0800 252266

gwaed-cymru.org.uk